OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 938 (Cy.98)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Diddymu) 2008

Gwnaed - - - -	*28 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2008*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 28(1) o Atodlen 3 iddi, mae Gweinidogion Cymru, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan baragraff 28(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Diddymu) 2008 a daw i rym ar 1 Ebrill 2008.

Diddymu Ymddiriedolaeth GIG

2. Diddymir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (1999) (Sefydlu) 1998(**3**) ac, yn unol â hynny, dirymir y Gorchymyn hwnnw a Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Newid Enw) 1999(**4**).

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2008

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996, O.S. 1996/653, sy'n parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006.
(**3**) O.S. 1998/3315.
(**4**) O.S. 1999/1321.